

# Tyfu ar gyfer twf

## E-fwletin Garddwriaeth gan Cyswllt Ffermio – rhifyn Gwanwyn 2025.

Croeso i'n e-fwletin pwrpasol ar gyfer Tyfwyr a Busnesau Garddwriaeth.

### Beth sy'n digwydd ym maes garddwriaeth?

**Yn galw ar holl dyfwyr ffrwythau a llysiau yng Nghymru (sydd wedi cofrestru gyda ni ai peidio!) - gadewch i ni ddangos pa mor bwysig yw ein diwydiant!**

Byddem yn ddiolchgar pe gallech gwblhau'r [Arolwg](#) hwn i roi gwybodaeth i ni am faint, natur a phwysigrwydd y diwydiant, a llwyddiant y sector o ran cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill yn gynaliadwy. Bydd eich llais a'ch data dienw yn ein helpu i ddeall y raddfa gynyddol o gynhyrchu yng Nghymru, cynllunio ar gyfer cymorth i chi yn y dyfodol, a llywio polisi.

Cysylltwch â ni ar [horticulture@lantra.co.uk](mailto:horticulture@lantra.co.uk) os oes gennych unrhyw gwestiwn a rhowch wybod i'ch holl gysylltiadau perthnasol!

#### Adroddiad arbennig: Gwobrau Lantra 2024

Cynhaliwyd Gwobrau Blynyddol Lantra ar gyfer 2024 ddydd Iau, 16 Ionawr 2025 yng Ngwesty gwych y Metropole yn Llandrindod. Mae Lantra Cymru yn darparu hyfforddiant a chymwysterau arbenigol hanfodol ar gyfer y diwydiannau amgylcheddol a diwydiannau'r tir, a nhw yw tîm Cyswllt Ffermio ar gyfer Garddwriaeth. I ddathlu'r sector, mae Lantra Cymru, gyda chymorth Cyswllt Ffermio, yn cynnal y seremoni wobrwyo flynyddol unigryw. Mae mynediad am ddim i'r gwobrau, ac ymhlith y beirniaid ar gyfer y gwobrau Garddwriaeth roedd yr arbenigwyr sector Peter Segger, David Skydmore a Debbie Handley.

Cyflwynodd y gwestai arbennig Huw Irranca - Davies MS - y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig - y ddwy wobwr gyntaf: Gwobr Cyfraniad Oes Lantra a Gwobr Goffa Brynle Williams.

Roedd hi hefyd yn anrhydedd cael croesawu Alun Elidyr o S4C fel ein cyflwynydd brwd am y noson.

Roedd ein henillwyr garddwriaeth yn cynnwys:

- **Gwobr Garddwriaeth Cyswllt Ffermio.** Enillydd: **Robb Merchant MBE** – Gwinllan White Castle, Y Fenni, (aelod o'n rhwydwaith Gwinllan!) Yn ail: **Geraint ac Emma Evans** – Bonvilston Edge, Bro Morgannwg
- **Gwobr Dysgwr Ifanc y Flwyddyn – 20 ac iau.** Enillydd: **Ellen Firth** - Firth Flock Flowers, Llanfair Dyffryn Clwyd, Rhuthun. (ac aelod o'n rhwydwaith blodau o Gymru!) Gallwch ddod o hyd i fwy o fanylion am yr holl enillwyr [yma](#).

Ac mae rhai adroddiadau ar y noson yma: [Powys County County](#), [NFU Cymru](#), [Cyswllt Ffermio](#)

#### Y wybodaeth ddiweddaraf ar y fenter Dechrau Ffermio

Ydych chi eisiau mentro i redeg eich busnes fferm neu goedwigaeth eich hun ryw ddydd? Beth am ystyried menter ar y cyd? Gall [Dechrau Ffermio Cyswllt Ffermio](#) baru ffermwyr a thirfeddianwyr sy'n dymuno camu'n ôl o'r diwydiant â newydd-ddyfodiadaid sy'n chwilio am ffordd i mewn i fyd amaeth. Ar adeg cyhoeddi, mae'r cyfleoedd canlynol ar gael o hyd:

[Cyfle #120 | Cyswllt Ffermio](#)

Neu, a ydych chi'n dirfeddianwr sy'n chwilio am bartner busnes? Cliciwch ar y ddolen dechrau ffermio i ddarganfod mwy.

### Uchafbwynt y tyfwr

#### Ydych chi'n chwilio am rywun i luosogi stoc?

Cwblhaodd Gardd Gegin Mostyn gydweithrediad Tyfwyr llwyddiannus trwy luosogi bron i 3000 o hadau pwmpen ar gyfer Swans Farm Shop ar gyfer eu menter casglu pwmpenni eich hun y llynedd. Os nad oes gennych yr amser, y gofod na'r arbenigedd i dyfu a meithrin eich planhigion eich hun o hadau, beth am gydweithio â thyfwr arall i gael y canlyniad gorau?


Mae Gardd Gegin Mostyn yn aelod o rwydweithiau twristiaeth Garddwriaeth ac asbaragws, rhowch wybod i ni os hoffech chi hefyd ymuno a chwrdd â thyfwyr eraill drwy anfon e-bost at

[horticulture@lantra.co.uk](mailto:horticulture@lantra.co.uk). Rydym wedi sefydlu o leiaf **19 Rhwydwaith Garddwriaeth** ac **11**

**clwstwr cadwyn gyflenwi Garddwriaeth**, ymunwch ag un heddiw!

A sylwer, mae Philip Handley o MKG yn fentor Cyswllt Ffermio - gweler [yma](#)

Gweler gwefan MKG [yma](#) a'r [tudalen Facebook yma](#).



## Diweddarau eich gwybodaeth

**A ydych am achub y blaen ar yr heriau yr ydym yn eu hwynebu oherwydd newid yn yr hinsawdd?**

**A beth am baratoi eich hun ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig?**

Mae gan Iain Cox, o [Eco Studio](#) flynyddoedd o brofiad o helpu sefydliadau i roi cynaliadwyedd ar waith. Mae clwstwr newydd wedi'i greu, oherwydd y cynllun newydd ar wrthsefyll hinsawdd, i roi mwy o gymorth i dyfwrwr i addasu i newid yn yr hinsawdd. Cynhaliwyd y gweithdy cyntaf ddechrau mis Mawrth. Os hoffech chi fynegi diddordeb mewn ymuno â'r clwstwr, e-bostiwch [horticulture@lantra.co.uk](mailto:horticulture@lantra.co.uk)



### Perllannau Amgen

Casglodd Garddwriaeth Cyswllt Ffermio banel o arbenigwyr enwog ar berllannau i drafod perllannau amgen, gan gynnwys Joey Hughes o Ferched Y Berllan, Tom Adams o Tom the Apple man, a Tom Tame o Gnau Ffrengig Swydd Warwick. Rhoddodd pob arbenigwr gyflwyniad byr 10 munud gwych ar gnwd amgen o'u dewis gyda sesiwn holi ac ateb i ddilyn. Gofynnodd y rhai a oedd yn bresennol rai cwestiynau gwych a chawsom atebion yr un mor gyffrous gan y panel. Roedd y panel yn ymdrin â phopeth o broffidioldeb cnydau, mathau allweddol, buddion i fywyd gwylt, strwythur y pridd ac iechyd cyffredinol y borfa, a chreu ail gnwd o laswelltir/gwrychoedd presennol, coed hŷn yn darparu cysgod a chyfleoedd i dda byw, y defnydd niferus ar gyfer helyg, ac awgrymiadau ar ddyfrhau i sefydlu coed yn llwyddiannus. Oes gennych chi gnwd perllan neu bwnc arall yr hoffech chi ddysgu mwy am ddefnyddio fformat panel arbenigol tebyg? Rhwch wybod i ni drwy anfon e-bost at [horticulture@lantra.co.uk](mailto:horticulture@lantra.co.uk)



### Rhaglen hyfforddiant newydd a chyffrous ar gyfer tyfwyr llysiâu sefydledig!

Mae Adam Payne o [Awen organics](#) wedi creu rhaglen hyfforddiant bwrsadol i alluogi tyfwyr llysiâu masnachol o Gymru sydd eisoes yn tyfu, i gynyddu cynhyrchiant, dod o hyd i farchnadoedd newydd, a deall arferion gorau ac effeithlonrwydd busnes i wneud garddwriaeth adfywiol yn fwy gwydn. Mae'r pynciau'n cynnwys:

- Technegau ac offer ar gyfer cynhyrchu llysiâu ar raddfa cae
- Lluosogi cynhyrchiant gardd farchnad a thwnnel polythen gwerth uchel ac ymestyn y tymor
- Rheoli plâu, clefydau a chwyn mewn systemau organig
- Sefydlu; o heriau yn ymwneud â phridd a phlâu a chwyn, i systemau dyfrhau a strategaeth ffrwythlondeb
- Edrych yn fanwl ar daenleni llif arian a chynllunio cnydau, cyllidebau cnydau, a dulliau rheoli.

Rhwch wybod i ni os hoffech chi gymryd rhan! E-bostiwch [horticulture@lantra.co.uk](mailto:horticulture@lantra.co.uk)



Hefyd, siaradwch â'n **harbenigwyr arbenigol allweddol** sydd ar gael ar gyfer sesiynau cymorth Busnes Garddwriaeth unigol naill ai ar-lein neu'n bersonol yn eich eiddo. I elwa ar ein gwasanaeth **cymorth busnes garddwriaeth cyfrinachol a rhad ac am ddim**, cysylltwch â [horticulture@lantra.co.uk](mailto:horticulture@lantra.co.uk).

## Grantiau a Chynlluniau

Hoffem dynnu sylw at Gynllun a Grant Gwledig newydd o'r enw 'Grantiau Bach - Effeithlonrwydd'. Mae'r ffenestr ymgeisio yn agor ddydd Llun 3 Mawrth 2025, ac yn cau 11 Ebrill 2025. Gyda'r ffenestr fer hon ar ddechrau tymor tyfu prysur y gwanwyn, mae'n well dechrau cynllunio'ch amser nawr, a threfnu ychydig o amser gyda ni i fynd trwy'ch ceisiadau! Gweler ein [Taflen Gyngor](#) i ddod o hyd i'r dolenni a chadwch lygad ar y Grantiau a Chynlluniau Gwledig eraill ar wefan Llywodraeth Cymru ar gyfer dyddiadau cau - mae dolen yn y daflen gyngor!

Cofiwch y gallwch hefyd drefnu **sesiwn cymorth busnes un i un wedi'i hariannu'n llawn** i gael cyngor ar eich cais. E-bostiwch [Horticulture@lantra.co.uk](mailto:Horticulture@lantra.co.uk). Hefyd, mae templed cynllun busnes rhad ac am ddim ar gael [yma](#) os ydych ei angen ar gyfer y cais.

## Beth sydd ymlaen?

Ers mis Ebrill 2023...

- Rydym wedi darparu oddeutu **85 o sesiynau hyfforddiant** gan gynnwys gweminarau a digwyddiadau, ac rydym wedi darparu dros **739 o leoedd cwrs**, ac **8 modiwl e-ddysgu**.
- Rydym wedi cyflwyno tua **358 o sesiynau cymorth busnes garddwriaethol (HBS)** un i un.
- Rydym wedi cynnal **8 cyfarfod** gyda Rhanddeiliaid ar gyfer **Grŵp Tystiolaeth a Chynghori Cymru ar Iechyd Planhigion**, ac **8 ar gyfer Cynghrair Garddwriaeth Cymru**. - Rydym yn



dymuno cael cynrychiolaeth o'r diwydiant yn rhan o'r cyfarfodydd hyn, os hoffech gael y cyfle i lywio polisi, cysylltwch â ni ar [horticulture@lantra.co.uk](mailto:horticulture@lantra.co.uk)

Cadwch lygad ar ein rhestr digwyddiadau [yma](#), i gael gwybodaeth am ein rhaglen gyffrous newydd o weithgareddau.

- 17-Mawrth-25 **Gweithdy ar Gyneafu a Storio** - gyda Tony Little a'r siaradwyr gwadd Adam York a Lyndall Merry
- 20-Mawrth -25 **Garddwriaeth - A oes angen caniatâd cynllunio arnaf ar gyfer fy nhwnnel polythen, sied, traciau ...?** gyda'r arbenigwr Lucie Taylor
- 20-Mawrth -25ain **Rheoli Plâu a Chlefydau yn Integredig ar gyfer Tyfwyr Addurniadol –** awgrymiadau cyn y tymor – gyda David Talbot
- 26-Mawrth-25 **Gwinwyddaeth Adfywiol** – Gydag arbenigwyr
- 27-Mawrth-25 – 8-Ebrill-25 **Garddwriaeth Adfywiol - Rhaglen hyfforddiant ar gynhyrchu llysiau** Hyfforddiant 4 diwrnod - Gyda'r arbenigwr Adam Payne
- 2-Ebrill-25 **Rheoli plâu mewn Mefus a Mafon heb Blaladdwyr -** gyda Chris Creed a Ben Barnes (ADAS)
- 15-Ebrill-25 l'w gadarnhau **Allwch chi sicrhau bod eich menter arddwriaeth yn gwrthsefyll sychder? -** Gyda'r arbenigwr Paul Jennings
- 06-Mai-25 **Gweithdy ar Rwydwaith Iechyd y Pridd** - Gyda'r arbenigwr Tony Little ar gyfer aelodau Rhwydwaith Iechyd y Pridd

## Ymwadiad

Gwneir pob ymdrech i sicrhau cywirdeb y wybodaeth a'r argymhellion a roddir yn y nodiadau hyn. Dylid defnyddio cemegau amddiffyn cynydau gan ddilyn argymhellion y label bob tro, a dylid eu darllen cyn chwistrellu. Mae'r risg o ddefnyddio'r plaladdwr yn nwylo'r defnyddiwr, ac nid yw Cyswllt Ffermio yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw golled neu ddifrod a achosir gan ddefnyddio o'r fath. Gall y cyfeiriadau at gymeradwyaethau ar y label ac EAMUs ar gyfer defnyddio plaladdwyr newid a gellir tynnu cymeradwyaeth yn ôl ar unrhyw adeg. Cyfrifoldeb y tyfwr yw gwirio cymeradwyaethau cyn defnyddio plaladdwyr neu fuddolion. Os oes amheuaeth, dylai tyfwr geisio cyngor gan arbenigwr cymwys. Cysylltwch â ni i drefnu apwyntiad – mae cyngor dros e-bost/ffôn ar gael hefyd. Nid ydym yn gwarantu, yn cymeradwyo, nac yn cymryd cyfrifoldeb am gywirdeb na dibynadwyedd unrhyw wybodaeth a gynigir gan wefannau trydydd parti sy'n gysylltiedig â'r ddogfen neu unrhyw wefan neu nodwedd sydd wedi'i chysylltu ag unrhyw faner neu hysbyseb arall.



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**

